OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1704 (Cy.164)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2010

Gwnaed - - - - *26 Mehefin 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - *30 Mehefin 2010*
Yn dod i rym - - *1 Awst 2010*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22, 42(6) a 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**):

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2010.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Awst 2010 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Cymhwyso

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â darparu cymorth i fyfyrwyr mewn cysylltiad â Blwyddyn Academaidd 2010/2011.

Dehongli

3. Yn y Rheoliadau hyn—

mae i'r ymadrodd "yr Atebolrwydd sydd heb ei Dalu" ("*the Outstanding Liability*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 7;

(**1**) 1998 p.30; diwygiwyd adran 22 gan adran 146 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21) ac Atodlen 11 iddi, Atodlen 6 i Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p.1), adran 147 o Ddeddf Cyllid 2003 (p.14), ac adrannau 42 a 43 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p.8) ac Atodlen 7 iddi a Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p.22), adran 257.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan is-adran (2)(a), (c), (j) neu (k), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ac mae Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1833 (Cy.149) (C.79)) fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2006 (O.S. 2006/1660 (Cy.159) (C.56)) yn cyfeirio at hyn. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraffau 30(1) a 30(2)(a) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

ystyr "benthyciad at gostau byw" ("*loan for living costs*") yw benthyciad a geir oddi wrth Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r Flwyddyn Academaidd 2010/2011 o dan Reoliadau a wneir yn unol ag adran 22 o Ddeddf 1998(**3**);

ystyr "y benthyciwr" ("*the borrower*") yw person sydd wedi cael benthyciad at gostau byw gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r Flwyddyn Academaidd 2010/2011;

ystyr "blwyddyn academaidd" ("*academic year*") yw'r cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dechrau ar 1 Medi, 1 Ionawr, 1 Ebrill neu 1 Gorffennaf yn y flwyddyn galendr y mae blwyddyn academaidd y cwrs o dan sylw yn dechrau ynddi, yn ôl a yw'r flwyddyn academaidd honno yn dechrau ar neu ar ôl 1 Awst ond cyn 1 Ionawr, ar neu ar ôl 1 Ionawr ond cyn 1 Ebrill, ar neu ar ôl 1 Ebrill ond cyn 1 Gorffennaf, neu ar neu ar ôl 1 Gorffennaf ond cyn 1 Awst;

ystyr "Blwyddyn Academaidd 2010/2011" ("*Academic Year 2010/2011*") yw blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2010 ond cyn 1 Medi 2011;

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998;

ystyr "Deddf 2008" ("*the 2008 Act*") yw Deddf Gwerthu Benthyciadau Myfyrwyr 2008(**4**);

ystyr "y Dyddiad Ad-dalu" ("*the Repayment Date*") yw'r diwrnod ar ôl y dyddiad y bernir bod ad-daliad cyntaf y benthyciwr ar ei fenthyciad wedi cael ei dderbyn naill ai gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi neu gan Weinidogion Cymru, pa un bynnag y bernir iddo gael ei dderbyn gyntaf (yn unol â Rheoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf 1998(**5**));

mae i'r ymadrodd "y Dyddiad Bodloni" ("*the Satisfaction Date*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 9;

mae "Gweinidogion Cymru" ("*Welsh Ministers*") yn cynnwys unrhyw berson y mae Gweinidogion Cymru wedi trosglwyddo neu wedi dirprwyo'u swyddogaethau o dan adran 23 o Ddeddf 1998 iddo neu unrhyw berson y maent wedi trosglwyddo eu hawliau o dan adran 9 o Ddeddf 2008 iddo; ac

mae i'r ymadrodd "y Swm Penodedig" ("*the Specified Amount*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 6.

Y cymhwyster ar gyfer dileu

4. Mae benthyciwr yn gymwys i gael y Swm Penodedig o'r Atebolrwydd sydd heb ei Dalu wedi ei ddileu yn yr amgylchiadau a geir yn rheoliad 5 ("yr Amgylchiadau").

Yr Amgylchiadau

5. Yr Amgylchiadau at ddibenion rheoliad 4 yw–

(1) bod y benthyciwr wedi cael benthyciad at gostau byw; a

(2) bod Gweinidogion Cymru o'r farn, o ran y benthyciwr ar y Dyddiad Ad-dalu—

(a) nad yw wedi torri unrhyw rwymedigaeth a geir mewn unrhyw gytundeb ar gyfer benthyciad myfyriwr neu mewn unrhyw Reoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf 1998; ac

(b) nad oes ganddo gosbau, costau, treuliau neu ffioedd sydd heb eu talu mewn perthynas ag unrhyw fenthyciad o'r fath o dan unrhyw gytundeb neu Reoliadau o'r fath.

(**3**) Ar adeg gwneud y Rheoliadau hyn, mae Gweinidogion Cymru'n talu benthyciadau at gostau byw mewn cysylltiad â'r Flwyddyn Academaidd 2010/2011 yn unol â Rhan 6 o Reoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/2737 (Cy.235)).

(**4**) 2008 p.10.

(**5**) Ar adeg gwneud y Rheoliadau hyn, penderfynir ar y dyddiad y bernir bod ad-daliad benthyciwr wedi ei dderbyn yn unol â rheoliad 17 o Reoliadau Addysg (Benthyciadau Myfyrwyr) (Ad-dalu) 2009 (O.S. 2009/470).